

Disgrifiad o Rôl Ymddiriedolwr

1. Disgrifiad o Rôl Ymddiriedolwr

1.1 Cyfrifoldebau allweddol:

- a. Sicrhau bod gan UMAber weledigaeth, cennad a chyfeiriad strategol eglur, a'i fod yn canolbwyntio ar wireddu'r rhain.
- b. Bod yn gyfrifol am berfformiad UMAber ac am ei ymddygiad.
- c. Sicrhau bod UMAber yn cydymffurfio â phob gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.
- ch. Gweithredu fel gwarchodwyr asedau UMAber, boed diriaethol neu anniriaethol, gan ofalu am eu diogeledd, eu lleoliad a'r defnydd cywir ohonynt.
- d. Sicrhau bod llywodraethiant UMAber o'r safon uchaf posibl.

1.2 Dyletswyddau a thasgau i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn

- a. Wrth weithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolwyr eraill, y Prif Weithredwr ac uwch aelodau staff eraill, rhaid i Ymddiriedolwyr sicrhau:
 - i. Bod gan UMAber weledigaeth, cennad a chynllun strategol eglur y cytunwyd arnynt gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, a bod dealltwriaeth gyffredin o'r rhain ymysg Ymddiriedolwyr a staff;
 - ii. Bod cynlluniau gweithredol, y ogystal â chynlluniau eraill, yn cefnogi'r weledigaeth, y gennad a'r blaenoriaethau strategol hyn;
 - iii. Bod amcanion a thargedau blynyddol, a rhai mwy hir-dymor, y Prif Weithredwr yn cynorthwyo â gwireddu'r weledigaeth, y gennad a'r blaenoriaethau strategol;
 - iv. Bod polisiau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cynorthwyo'r weledigaeth, y gennad a'r blaenoriaethau strategol; a
 - v. Bod mecanweithiau effeithiol ar waith ar gyfer:
 1. Gwranddo ar farn Aelodau cyfredol ac Aelodau'r dyfodol;
 2. Adolygu'r amgylchedd allanol am newidiadau a allai effeithio ar UMAber;
 3. Ail-asesu'r angen am UMAber a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu, neu y gellid eu darparu; ac
 4. Adolygu ei gynllun strategol a'i flaenoriaethau'n rheolaidd
- b. Bod yn gyfrifol, ynghyd â'r Ymddiriedolwyr eraill, am berfformiad ac ymddygiad UMAber:
 - i. Cytuno ar ddull o fesur cynnydd UMAber yn wrthrychol parthed ei weledigaeth, cennad, amcanion/blaenoriaethau strategol, cynlluniau a thargedau blynyddol a derbyn adroddiadau'n rheolaidd ar berfformiad UMAber;
 - ii. Sicrhau bod y gwerthoedd sylfaenol a'r egwyddorion sy'n arwain UMAber yn cael eu cyfleu a'u hadlewyrchu ar draws y mudiad;
 - iii. Sicrhau bod barn yr Aelodau am berfformiad UMAber yn cael ei chasglu'n rheolaidd a'i hystyried gan y Bwrdd;
 - iv. Penodi Prif Weithredwr a gosod telerau ac amodau'r swydd, yn ogystal â sicrhau bod yr unigolyn ei hun ac UMAber yn ei gyfanrwydd yn buddsoddi yn eu datblygiad proffesiynol parhaus;
Derbyn adroddiadau'n rheolaidd gan y Prif Weithredwr ar gynnydd tuag at flaenoriaethau strategol y cytunwyd arnynt;
 - vi. Dal y Prif Weithredwr i gyfrif o ran rheolaeth a gweinyddiaeth UMAber;

- vii. Sicrhau bod y Prif Weithredwr yn derbyn adborth adeiladol yn rheolaidd ar eu perfformiad fel rheolwr UMABer ac o ran cyflawni eu targedau ac amcanion blynyddol a hirdymor;
 - viii. Sicrhau bod y Prif Weithredwr yn datblygu mudiad sy'n dysgu a bod staff a gwirfoddolwyr yn adolygu eu perfformiad eu hunain ac yn derbyn adborth yn rheolaidd; a
 - ix. Sicrhau bod mecanweithiau sy'n galluogi myfyrwyr, aelodau staff, gwirfoddolwyr ac unigolion, grwpiau neu fudiadau eraill i ddwyn i sylw'r Ymddiriedolwyr unrhyw weithgaredd sy'n bygwth cywirdeb UMABer.
- c. Sicrhau bod UMABer yn cydymffurfio â phob gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.
- i. Bod yn ymwybodol a sicrhau bod UMABer yn cydymffurfio â phob gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a statudol.
 - ii. Parhau i fod yn gyfarwydd â'r rheolau a dogfennau sy'n llywodraethu UMABer a sicrhau bod UMABer yn cydymffurfio â'i offerynnau llywodraethu, yn ogystal ag adolygu'r rhain yn rheolaidd.
 - iii. Cytuno ar y lefelau o awdurdod dirprwyedig er mwyn sicrhau bod y rhain yn cael eu cadw mewn ysgrifen ar ffurf cofnodion, cylch gorchwyl ar gyfer pwyllgorau ac is-bwyllgorau'r Bwrdd, swydd-ddisgrifiadau ar gyfer Ymddiriedolwyr, staff allweddol, gwirfoddolwyr a.y.b. Dylid hefyd sicrhau bod gweithdrefnau eglur ar gyfer adrodd yn ôl, a gaiff hefyd eu cofnodi mewn ysgrifen, ac y cydymffurfir â hwy
 - iv. Sicrhau bod y cyfrifoldebau a ddirprwyir i'r Prif Weithredwr yn cael eu mynegi'n eglur a'u deall, a bod y cyfarwyddiadau a roddir iddyn nhw'n dod oddi wrth Fwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ei gyfanrwydd.
- ch. Gweithredu fel gwarchodwyr asedau UMABer, boed diriaethol neu anniriaethol, gan ofalu am eu diogelwch, eu lleoliad a'r defnydd cywir ohonynt
- i. Sicrhau bod gan UMABer systemau a gweithdrefnau rheoleiddio boddhaol ar gyfer cadw mewn ymddiriedolaeth ar ran buddiolwyr pob arian, eiddo ac asedau eraill, ynghyd â sicrhau bod arian yn cael ei fuddsoddi er y budd mwyaf posibl i UMABer, o fewn cyfyngiadau'r gyfraith a pholisïau eraill a osodir gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr
 - ii. Sicrhau bod y peryglon mwyaf sy'n wynebu UMABer yn cael eu hadolygu'n flynyddol a bod systemau wedi cael eu profi am eu cadernid.
 - iii. Sicrhau bod incwm ac eiddo UMABer yn cael eu defnyddio at y dibenion a amlinellir yn y ddogfen lywodraethu ac nid at unrhyw ddiben arall, ac yn gwbl deg ymysg y bobl sy'n gymwys i elwa ohonynt.
 - iv. Gweithredu'n rhesymol, yn ddoeth ac ar y cyd ym mhob mater sy'n ymwneud ag UMABer a gweithredu er budd UMABer bod amser.
 - v. Bod yn atebol am hydaledd ac effeithiolrwydd parhaus UMABer ac am warchod ei waddoliadau.
 - vi. Gweithredu rheolaeth gyffredinol effeithiol dros faterion ariannol UMABer a sicrhau nad yw'r ffordd y caiff UMABer ei weinyddu'n agored i gamddefnydd gan unrhyw gydymaith, gweithiwr neu wirfoddolwr diegwyddor; a bod y systemau rheolaeth yn llym a'u bod yn cael eu cynnal yn gyson trwy werthuso a gwella rheolaidd yng ngoleuni profiad.
 - vii. Sicrhau bod gwerth yn cael ei osod ar asedau anniriaethol megis gwybodaeth ac arbenigedd y mudiad, yn ogystal ag eiddo deallusol ac enw da UMABer, a'u bod yn cael eu defnyddio a'u diogelu'n gywir.
 - viii. Sicrhau bod yr holl incwm sy'n deilwng i UMABer yn cael ei dderbyn, bod pob budd o ran trethi yn cael ei feddiannu a phob cymorth trethi'n cael ei hawlio.
- d. Sicrhau bod llywodraethiant UMABer o'r safon uchaf posibl.

- i. Sicrhau bod gan UMAber strwythur llywodraethiant sy'n briodol i fudiad o'i faint, cymhlethdod, lefel o ddatblygiad a'i amcanion elusennol, ac sy'n galluogi'r Ymddiriedolwyr i ddiwallu eu cyfrifoldebau
- ii. Adlewyrchu'n flynyddol ar berfformiad Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a pherfformiad Ymddiriedolwyr unigol
- iii. Sicrhau bod gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr y sgiliau angenrheidiol i lywodraethu UMAber yn dda, a'u bod yn gallu cael gafael ar gyngor ac arbenigedd proffesiynol allanol perthnasol
- iv. Sicrhau bod yna weithdrefn systemataidd, agored a theg ar gyfer ethol neu recriwtio Ymddiriedolwyr
- v. Sicrhau bod cynlluniau dilyniant ar waith ar gyfer yr Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr lle bo hynny'n bosibl.
- vi. Cyfranogi mewn datblygiad a hyfforddiant unigol ac ar y cyd ar gyfer Ymddiriedolwyr.
- vii. Cydymffurfio â'r cod ymddygiad ar gyfer Ymddiriedolwyr.
- viii. Sicrhau bod penderfyniadau pwysig a pholisiau'r Bwrdd yn cael eu gwneud gan yr Ymddiriedolwyr yn gweithredu ar y cyd.

2. Cyfnod y swydd

2.1 Ymddiriedolwyr sy'n Swyddogion

- a. Etholir Swyddogion Ymddiriedolwyr drwy bleidlais gyfrinachol traws-gampws a gynhelir yn yr ail semester.
- b. Gall hyd at ddau unigolyn rannu rolau a chyfrifoldebau amrywiol Swyddogion Ymddiriedolwyr (fel y manylir arnynt yn Atodlen 2.2) ac eithrio bod yn Ymddiriedolwr Elusen; mae'r rôl hon ar gael i un person yn unig. Gofynnir i'r ddau unigolyn gytuno pa un ohonynt fydd yn cyflawni'r rôl hon cyn iddynt gael eu hethol.
- b. Mae'r cyfnod o flwyddyn yn y rôl (52 wythnos) yn dechrau ar 1^{af} Gorffennaf ac yn dod i ben ar 30^{ain} Mehefin. Mae'n bosib y bydd y rôl yn dechrau bythefnos ynghynt er mwyn caniatáu cyfnod o drosglwyddo'r awenau rhwng yr Ymddiriedolwyr sy'n dod i ddiwedd eu cyfnod yn y rôl a'r rheiny sy'n eu disodli.
- c. Mae'r wythnos waith yn isafswm o 36.5 awr; yr oriau craidd yw 10.00am - 4.00pm, a gellir eu rhannu rhwng dau unigolyn, gyda chyfanswm sydd cyfwerth ag un person llawn-amser. Serch hynny, er mwyn diwallu gofynion y rôl, mae'n bosib y bydd gofyn i Swyddogion Ymddiriedolwyr weithio oriau ychwanegol, gan gynnwys ar fin-nos ac ar benwythnosau.
- d. Bydd gofyn i Swyddogion Ymddiriedolwyr beidio â derbyn unrhyw gyflogaeth arall, boed am dâl neu'n ddi-dâl, yn ystod eu cyfnod yn y swydd heb ganiatâd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

2.2 Ymddiriedolwr Allanol

- a. Penodir Ymddiriedolwr Allanol am gyfnod hyd at bedair blynedd
- b. Yng nghylchred cyffredin digwyddiadau, bydd penodiad yn dechrau ar 1^{af} Gorffennaf yn y flwyddyn y penodir hwy ac yn dod i ben ar 30^{ain} Mehefin ar ddiwedd eu cyfnod yn y swydd.
- c. Os yw Ymddiriedolwr Allanol yn ymddiswyddo, neu'n cael ei ddiarddel, gwneir penodiad yn unol â Chymal 58 o'r Cyfansoddiad. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dechrau ar ei gyfnod yn y swydd gynted y caiff ei gadarnhau gan Gyfarfod o'r Senedd neu Gyfarfod Cyffredinol Blynnyddol, a daw ei gyfnod yn y swydd i ben ar 30^{ain} Mehefin yn ei bedwaredd flwyddyn yn y rôl.
- ch. Gall Ymddiriedolwr Allanol wasanaethu am uchafswm o ddau gyfnod o bedair blynedd yn y swydd, a all fod yn olynol neu beidio.

2.3 Ymddiriedolwyr sy'n Fyfyrrwyr

- a. Etholir Myfyrrwyr Ymddiriedolwyr am gyfnod hyd at ddwy flynedd

- b. Yng nghylchred cyffredin digwyddiadau, bydd penodiad Myfyrwyr Ymddiriedolwyr sy'n israddedigion yn dechrau ar 1^{af} Gorffennaf yn y flwyddyn y penodir hwy ac yn dod i ben ar 30^{ain} Mehefin ar ddiwedd eu cyfnod yn y rôl.
- c. Yng nghylchred cyffredin digwyddiadau, bydd penodiad Myfyrwyr Ymddiriedolwyr sy'n ôl-raddedigion yn dechrau ar 1^{af} Tachwedd yn y flwyddyn y penodir hwy ac yn dod i ben ar 31^{ain} Hydref ar ddiwedd eu cyfnod yn y swydd.
- ch. Os yw Myfyriwr Ymddiriedolwr yn ymddiswyddo neu'n cael ei ddiarddel, cynhelir etholiad ar gyfer llenwi'r swydd wag; bydd cyfnod y sawl a etholir i'r rôl yn dechrau ar unwaith a daw eu cyfnod yn y rôl i ben ar 30^{ain} Mehefin yn ei ail flwyddyn yn y swydd.
- d. Gall Myfyrwyr Ymddiriedolwyr wasanaethu am uchafswm o ddau gyfnod o ddwy flynedd yn y swydd, a all fod yn olynol neu beidio.

3. Cydnabyddiaeth ariannol

- 3.1 Ymddiriedolwyr sy'n Swyddogion
 - a. Caiff y lefel o gydnabyddiaeth ariannol a gynigir i Swyddogion Ymddiriedolwyr ei benderfynu gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol (fel y disgrifir yn Atodlen 1.3, Adran 4). Mae'r gydnabyddiaeth ariannol bresennol ar Lefel Swyddogion Llawn-amser ar raddfa gyflog UMAber.
 - b. Bydd unrhyw fuddion sydd ar gael i staff ar gael i Swyddogion Ymddiriedolwyr.
 - c. Caiff treuliau cyfreithlon rhesymol eu had-dalu gan ddilyn y gweithdrefnau ariannol priodol.
 - ch. Bydd gan Swyddogion Ymddiriedolwyr hawl i 20 diwrnod o wyliau bob blwyddyn pro rata, yn ychwanegol i wyliau cyhoeddus a gwyliau cyffredinol Prifysgol Aberystwyth, pryd bydd UMAber ar gau. Caiff yr hawl i wyliau ei rhannu lle rhennir y rôl gan ddau unigolyn.
- 3.2 Myfyrwyr Ymddiriedolwyr ac Ymddiriedolwyr Allanol
 - a. Dim ond treuliau cyfreithlon rhesymol gaiff eu talu i fyfyrwyr ymddiriedolwyr ac ymddiriedolwyr allanol, a hynny cyn belled â bod y gweithdrefnau ariannol cywir yn cael eu dilyn.